

# Monmouthshire Select Committee Minutes

Meeting of Pwyllgor Craffu Pobl held at Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA on Dydd Mawrth, 6ed Chwefror, 2024 at 10.00 am

## Councillors Present

County Councillor John Crook (Chairman)

County Councillors: Fay Bromfield, Christopher Edwards, Simon Howarth, Penny Jones, Maureen Powell, Sue Riley, Maria Stevens, Jackie Strong

## Officers in Attendance

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu  
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu  
Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau  
Matthew Gatehouse, Pennaeth Polisi a Llywodraethiant  
Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant

Also in attendance: County Councillor Louise Brown, County Councillor Ian Chandler, Cabinet Member for Social Care, Safeguarding and Accessible Health Services and County Councillor Angela Sandles, Cabinet Member for Equalities and Engagement

**YMDDIHEURIADAU:** Dim.

### 1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

### 2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Dim.

### 3. Datblygu Darpariaeth Breswyl: Model Llety a Darparu Gofal

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Ian Chandler a Jane Rodgers yr adroddiad ac ateb cwestiynau'r Aelodau Peter Davies and Nicholas Keyse.

#### **Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau:**

- Lefel y galw a'r sail ar gyfer y 6 lleoliad plant pwrpasol, Aelodau'n cwestiynu a oes galw isel yn hanesyddol ac a fydd y nifer yn ddigonol yn y tymor hir. Gofynnwyd cwestiynau hefyd pam y bydd yn 3 annedd ar wahân, yn hytrach na chael y lleoliadau o dan yr un to.
- Mae'r adroddiad yn sôn am sicrhau grantiau gan lywodraeth Cymru mewn perthynas â chaffael eiddo addas - gofynnodd yr Aelodau pa mor hyderus yw'r cyngor o ran cyflawni amcanion yn y maes hwn a pha mor bell mae'r trafodaethau wedi symud ymlaen, fel nad oes rhaid i'r cyngor ddefnyddio mwy o gyllideb y Gwasanaethau Plant.
- Nifer y bobl ifanc o Sir Fynwy sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol eraill, ac i'r gwrthwyneb ac a fyddai'r ddarpariaeth yn arwain at symud rhai o'r bobl ifanc yn ôl i Sir Fynwy.

- Gyda phrosiectau ar y cyd fel Myst gyda Thorfaen, o ystyried bod y ffiniau mor agos rhwng awdurdodau lleol, a oes unrhyw gynlluniau i brynu eiddo gydag awdurdodau eraill, fel partneriaeth.
- A fydd achosion busnes unigol ar gyfer gwariant mawr ar asedau y mae'r Cabinet yn dymuno eu hailddefnyddio yn cael eu dwyn yn ôl i graffu (mae'r adroddiad yn nodi craffu ar ôl penderfyniad).
- Y gymhariaeth ag awdurdodau eraill ac unrhyw ddysgu oddi wrthynt.
- Er bod niferoedd lleoliadau plant yn isel, a fyddai'r ddarpariaeth yn arwain at gynnydd.
- Addaswydd eiddo o ran trefol/gwledig a sut y byddai gofodau llety yn cael eu hadeiladu o amgylch y categori pobl ifanc 16-25 oed.
- P'un a yw ymgynghori â phobl ifanc mewn darpariaeth breswyl neu gynmadawyr gofal wedi llywio'r cynigion.
- A fyddai lleoedd gwag mewn eiddo yn cael eu rhentu i awdurdodau cyfagos.
- P'un a fydd trafodaethau gydag aelodau'r ward lleol ynghylch unrhyw ddarpariaeth o asedau.
- Awgrymodd aelod fod angen i'r polisi i ddatgan mai maethu byddai'r opsiwn cychwynnol, gan ei bod yn well i blant fod gyda theulu.
- Faint o ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i'r goblygiadau referniw ac a fyddai arolygwyr annibynnol.

#### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Diolchwyd i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion am fod yn bresennol. Canolbwyntiodd y trafodaethau ar ddigonolrwydd ac addasrwydd lleoliadau pwrpasol, pa mor ddigonol a hyblyg y byddent, y tebygolrwydd o sicrhau grantiau Llywodraeth Cymru a chyfnewid lleoliadau gydag awdurdodau lleol eraill. Gofynnodd yr Aelodau gwestiynau ynghylch y posibilrwydd o gyd-brosiectau ar gyfer awdurdodau cyfagos a gofynnwyd am yr hyn a ddysgwyd gan gynghorau eraill. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch y mater o rannu ystafell gan frodyr a chwiorydd, effaith dod â phobl ifanc yn ôl i'w cymunedau, a math a lleoliad eiddo. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd sut y cynhaliwyd ymgynghoriad gyda phobl ifanc ac roedd cwestiynau am y mathau a'r nifer o leoliadau sydd eu hangen, y goblygiadau referniw a chaffael eiddo ailwrpasol. Cafwyd trafodaethau hefyd ar yr uchdwr benthyca a llywodraethu a thryloywder ynghylch prynu asedau. Cymeradwyodd y pwyllgor y cynnig a chododd y cyfle i graffu ar ôl y penderfyniad.

#### **4. Craffu ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Angela Sandles a Matthew Gatehouse yr adroddiad ac atebwyd cwestiynau'r aelodau ganddynt.

#### **Pwyntiau allweddol a godwyd gan Aelodau:**

- P'un a oedd yn gynamserol i gymeradwyo'r Cyngor yn gosod ei gyllideb a'r goblygiadau ar gyfer y gyllideb.
- Gofynnodd yr aelodau am y risgiau a heriau y gallai'r Cyngor eu hwynebu wrth gyflawni'r strategaeth.
- Mae'n hanfodol bwysig cydnabod bod pob preswlydd yn wynebu anawsterau o ryw fath ac y dylid cydnabod hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r problemau gwledig a'r caledi cysylltiedig.
- Cydnabyddiaeth y gall nodweddion gwarchoddedig orgyffwrdd yn aml a'r angen i gyfeirio at effaith codi oedran pensiwn y wladwriaeth o ran cyflogaeth.

- Mewn perthynas â nodwedd warchoddedig rhyw, efallai y gellid cynnwys ein bod yn gweithio gyda phartneriaid i leihau trais rhywiol ac nad yw'n fater i fenywod yn unig a phwysigrwydd ymgysylltu â bechgyn a dynion ifanc.
- Gall y strategaeth elwa o gynnwys sut mae menywod, sy'n cael y menopos, yn cael eu cefnogi yn y gwaith.
- Mae angen cysondeb o fewn y strategaeth o ran y nodweddion gwarchoddedig.
- Gall fod tensiynau rhwng nodweddion gwarchoddedig, gyda'r ddelfryd o gydraddoldeb yn cael ei golli ar brydiau, gydag aelodau'n cwestiynu a oedd hyn wedi cael ystyriaeth ddigonol.
- O ran adran LHDTTC+ y ddogfen, efallai y bydd angen cynnwys o dan y cwricwlwm bod angen i addysgu yn y maes hwn fod yn gritigol ac yn amryfath yn ôl cyfraith achosion ~ mae'n bwysig nodi bod cyfraith achosion bellach sy'n cydnabod safbwyntiau hollbwysig o ran rhywedd fel argyhoeddiad athronyddol a ddiogelir gan y gyfraith.

### **Crynodeb y Cadeirydd:**

Craffwyd ar yr adroddiad yn fanwl, gyda'r drafodaeth yn canolbwyntio ar dlodi gwledig a'r goblygiadau i'n heconomi yn y dyfodol, yn enwedig i ffermwyr. Roedd yr aelodau'n cydnabod bod y ddogfen yn ddogfen fyw ac y bydd cyfleoedd i ystyried cynnydd a diwygio'r ddogfen i adlewyrchu natur Sir Fynwy a chasglu mwy o dystiolaeth. Cydnabu'r aelodau y bydd angen alinio'r ddogfen â'r gyllideb. Cytunodd y pwyllgor fod y cynllun wedi'i ddrafftio'n dda ac yn cynnig gweledigaeth glir, ond roedd rhai pwyntiau i swyddogion a'r cabinet fyfyrion arnynt, yn enwedig y nodwedd warchoddedig rhyw. Cafwyd rhai sylwadau ynghylch trais rhywiol yn enwedig, a sut rydym yn gweithio gyda bechgyn a dynion ifanc ar faterion sy'n gysylltiedig â diogelwch personol. Trafodwyd adroddiadau aflonyddu rhywiol mewn ysgolion a theimlai'r aelodau ei bod yn bwysig cynnal manau un rhyw. Cododd yr aelodau'r angen i ystyried sut mae menywod sy'n mynd trwy'r menopos yn cael eu cefnogi, ac amlygwyd hefyd oedran pensiwn y wladwriaeth a goblygiadau hynny. Cydnabu'r Aelodau'r gwrthdaro a'r tensiynau rhwng gwahanol grwpiau a'r syniad o gydraddoldeb i bawb, ac awgrymwyd y gallai fod angen gwirio rhai o'r derminoleg a'r cysondeb yn y ddogfen, yn enwedig o ran y nodweddion gwarchoddedig. Yn ogystal, cododd aelod bryder am yr amcan o ddarparu addysg gynhwysol LHDTTC a sut mae'n cyd-fynd â'r dull addysgu, gan awgrymu y dylai addysgu fod yn amcan critigol a dylai fod yn amryfath, gydag anghenion crefydd a diwylliant yn cael eu hystyried. Cytunodd yr Aelodau bod y crynodeb yn adlewyrchu barn y pwyllgor ac yn cynnig ei gefnogaeth i'r cynllun, gydag adborth yn cael ei gynnig i'r Aelod Cabinet.

### **5. Cyfarfod Nesaf: 5ed Mawrth 2024**

The meeting ended at **12.16 pm**